

SUL Y GWAED



Y ddelwedd a ddarparwyd gan Museum of Free Derry

Ar 30 Ionawr 1972, ymunodd oddeutu 15,000 o bobl â gorymdaith heddychlon yn Derry i brotestio yn erbyn un o bolisiau Prydain – sef carcharu sifiliaid heb gyhuddiad neu dreial.

Caewyd y llwybr y bwriadwyd gorymdeithio ar ei hyd gan faricêd y fyddin. Aeth rhai o'r gorymdeithwyr i 'Free Derry Corner' yn ardal Bogside i wrando ar siaradwyr, ac aeth eraill yn eu blaen i lawr William Street i gyfeiriad y baricêd. Yno, taniodd y fyddin fwledi rwber a defnyddiwyd nwy dagrau a chanon dŵr. Arweiniodd hyn at derfysg.

Am 4 o'r gloch y prynhawn, aeth milwyr o Fataliwn 1^{af} Catrawd y Parasiwtwyr i ardal Bogside, er bod y rhan fwyaf o'r dorf wedi gadael. Dechreuodd y milwyr saethu i gyfeiriad sifiliaid, gan ladd 13 o bobl ac anafu 18 (yn ddiweddarach, bu farw un o'r bobl glwyfedig oherwydd ei anafiadau).

Ar ôl yr helynt, cafodd y milwyr eu rhyddhau o unrhyw fai gan lywodraeth Prydain, a rhoddwyd y prif fai ar y protestwyr. Yn yr ymchwiliad cyntaf, a gynhaliwyd gan yr Arglwydd Widgery, honnwyd mai'r protestwyr a oedd wedi saethu i gyfeiriad y milwyr yn gyntaf, ac mai'r hyn a wnaeth y milwyr oedd ceisio'u hamddiffyn eu hunain.

Eisiau rhagor o wybodaeth?

museumoffreederry.org/bloody-sunday-trust

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Darganfuwyd bod y profion fforensig a gynhaliwyd yn ystod yr ymchwiliad cyntaf (mewn perthynas â defnyddio arfau tanio) yn ddiffygiol.

Ym 1992, gwrthodwyd apeliadau gan deuluoedd y dioddefwyr i gynnal ail ymchwiliad. Gwnaed y penderfyniad hwn gan Brif Weinidog Prydain ar y pryd, sef John Major.

Darganfu ail ymchwiliad, a gynhaliwyd yn 2010 gan yr Arglwydd Saville, nad oedd unrhyw un o'r dioddefwyr yn arfog, a bod nifer ohonynt wedi cael eu saethu'n farw tra'r oeddynt yn ffoi neu'n ceisio cynorthwyo'r clwyfedig. Darganfuwyd hefyd bod nifer o filwyr "wedi cyflwyno adroddiadau ffug yn fwriadol" er mwyn cyflawnhau eu gweithredoedd, a bod Byddin Prydain wedi dangos diffyg disgyblaeth ar raddfa eang.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

"Mae'n fy nharo i fod aelodau'r Fyddin wedi rhedeg yn wyllt y diwrnod hwnnw, gan saethu heb feddwl beth roeddynt yn ei wneud. Roeddynt yn saethu pobl ddiniwed"

Yr Uwch-gapten Hubert O'Neill, Crwner yng nghwest 1973

"Rydw i o'r farn bod y tystion wedi dweud celwydd sawl gwaith ynglŷn â'r digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys cyflawni anudon, ddwywaith yn achos [milwr] H gerbron Widgery a Saville, ac unwaith yn achos [milwr] G gerbron Widgery"

Y Barnwr Lynch, Cwnsler y Brenin (yn y treial yn erbyn Milwr F yn 2025)